


Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhwystrau i Ymweld â Threftadaeth

Dyddiad Cyhoeddi: 1 Tachwedd 2022
Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 68/2022

© Crown copyright 2022 Welsh Government, WG45617

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd / This document is also available in Welsh
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Macro-rwystrau rhag Ymweld â Threftadaeth, Cadw 2022

Anthony Lydall, Strategic Research and Insight

Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn yr ymchwilydd ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 68/2022

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â
Tîm Ymchwil
Cadw
Adeilad Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
E-bost: Ymchwil.Cadw@gov.cymru

## Tabl Cynnwys

1. Crynodeb ..... 2
3. Cyflwyniad / Cefndir ..... 5
4. Methodoleg ..... 6
5. Disgwyliadau wrth fynd i rywle am y dydd ..... 9
6. Rhwystrau i Ymweld â Safleoedd Treftadaeth ..... 15
7. Annog Ymweliadau ..... 21
8. Ymatebion i Ysgogiad Gweledol ..... 30
9. Ymwybyddiaeth o Cadw ..... 41
10. Goblygiadau i Cadw ..... 43

# 1. Crynodeb

1.1 Comisiynodd Cadw’r ymchwil hon i ddeall y rhwystrau i gwsmeriaid, sydd eisoes yn mynd ar ddiwrnodau hamdden allan, rhag ymweld â safleoedd treftadaeth. Roedd angen yr ymchwil i lywio Cynllun Datblygu Cynulleidfa Cadw.

1.2 Rydym wedi cynnal arolygon panel ar-lein yng Nghymru (maint sampl 832) a Lloegr a’r Alban (2,919), ac yna chwe grŵp ffocws ar-lein. Mae'r holl ymatebwyr yn mynd i leoedd am y dydd, ond nid yw safleoedd treftadaeth yn un o'r mathau o leoedd y maent yn dewis ymweld â nhw.

1.3 Daw’r holl niferoedd a chanrannau a ddyfynnir o arolwg y panel ar-lein yng Nghymru, oni bai y nodir yn wahanol. Rydym wedi defnyddio’r canfyddiadau ansoddol o’r grwpiau ffocws i egluro’r canfyddiadau meintiol yn fanylach, a chanlyniadau arolygon panel Lloegr a’r Alban i’w cymharu â Chymru lle maent yn sylweddol wahanol.

1.4 Y grŵp o eiriau heb awgrymiadau cynorthwyol, tebyg i’w gilydd, a grybwyllwyd amlaf (48%) i ddisgrifio profiad mynd i rywle am y dydd yw ‘tawel / braf / heddychlon / ymlaciol’. Mae hyn hefyd wedi dominyddu trafodaethau grwpiau ffocws, lle mae cyfranogwyr wedi ymhelaethu bod yr angen i ‘ddianc rhag y cyfan’ yn ddelfrydol yn cael ei dreulio yn yr awyr agored naturiol.

1.5 Mae sawl ffactor yn cyfuno i atal ymwelwyr nad ydynt yn ymweld yn aml rhag ymweld â safleoedd treftadaeth yn amlach, neu’r rheini nad ydynt yn ymweld â safleoedd rhag ymweld o gwbl. Y chwe phrif reswm digymell yw’r canlynol:

- Ddim yn ddigon hawdd i’w gyrraedd am y dydd (26%)
- Ddim yn gwybod digon am beth sydd yna i'w wneud / i’w weld (23%)
- Swnio'n ddiflas (22%)
- Ddim yn cynnig ffyrdd fforddiadwy o gael mynediad (20%)
- Ddim yn rhoi gwerth am arian (19%)

- Ddim yn meddwl ei fod yn ddiddorol i blant (18% yn gyffredinol, ond yr ateb ar y brig (45%) ymhlith teuluoedd â phlant ifanc)

1.6 Mae adborth agored yn dangos, mewn gwirionedd, fod gan y rhan fwyaf o'r ymwelwyr nad ydynt yn ymweld yn aml / y rheini nad ydynt yn ymweld o gwbl, ddiddordeb i ryw raddau mewn dysgu am hanes safleoedd treftadaeth. Y rhwystrau yw y gall y diddordeb hwn fod yn gyfyngedig iawn o ran amser, neu nad yw'n ymestyn y tu hwnt i un ymweliad â'r un lle, gall ddibynnu ar gyda phwy y maent yn mynd (yn enwedig plant) a ph’un a ystyrir bod y pris mynediad yn un gwerth chweil.

1.7 Mae llawer y gall Cadw ei wneud neu y mae eisoes yn ei wneud a fyddai'n annog ymweliadau. Wrth gael awgrymiadau cynorthwyol am ddatblygiadau nad oedd ymatebwyr yn ymwybodol ohonynt o’r blaen, mae’r cyfrannau canlynol yn dweud y byddai’r rhain yn ‘bendant’ yn gwneud gwahaniaeth i’w tebygolrwydd o ymweld:

- Mwy o gaffis neu fwytai ar y safle (43%) – gallai hyn gynyddu’r amser mae ymwelwyr yn ei dreulio ar y safle, ac felly’r canfyddiad p’un a yw’r ymweliad yn un gwerth chweil

- Mwy o wybodaeth ryngweithiol ar wahân i ddarllen yn unig (37%) – yn enwedig ymhlith teuluoedd â phlant ifanc (49%), sy’n dweud na fyddai eu plant yn darllen byrddau gwybodaeth sefydlog, ond mae oedolion hefyd am i’r wybodaeth ddod yn fyw

- Rhagor o bethau i blant ei wneud ar y safle (32%) – yn enwedig ymhlith teuluoedd â phlant ifanc (68%), na fyddai’n mentro mynd â’u plant i rywle y gallent ddiflasu

- Mwy o ddigwyddiadau ar raddfa fawr (31%) – soniwyd am gerddoriaeth, bwyd, celf a chrefft, sy’n helpu i oresgyn y rhwystr nad oes unrhyw reswm canfyddedig dros ddychwelyd i’r safle ar ôl ymweliad cyntaf

- Gwelliannau sy’n eu gwneud yn fwy hygyrch (28%) – i deuluoedd â chadeiriau gwthio ynghyd ag oedolion ag anabledd symudedd

1.8 Mae'r pwyntiau uchod yn cael eu cadarnhau gan yr ymatebion cadarnhaol yn y grwpiau ffocws i lawer o ddatblygiadau diweddar Cadw, yn arbennig y canlynol:

- Fideo hyrwyddo Dydd Gŵyl Dewi – wedi'i ddisgrifio fel ‘ciwt’, sy'n dwyn atgofion plentyndod cadarnhaol i gof ac yn dangos yn glir sut y gallai plant fwynhau ymweliad â safle treftadaeth

- Caffi Castell Harlech – lleoliad deniadol iawn y tu allan i’r castell, sy’n galluogi ymwelwyr i weld yr atyniad yn gwbl weladwy, yn ogystal â’r golygfeydd o’i amgylch

- Rampiau hygyrchedd yng Nghastell Harlech ac Abaty Tyndyrn – a allai newid canfyddiadau anhygyrchedd i bobl â phroblemau symudedd a chadeiriau gwthio

- Blociau adeiladu yng Nghastell Biwmares – sy’n dangos sut y gall plant gymryd rhan mewn gweithgaredd

## 3. Cyflwyniad / Cefndir

3.1 Roedd Cadw yn dymuno deall y rhwystrau i ymweld â safleoedd treftadaeth ymhlith defnyddwyr y DU nad ydynt yn gweld y math hwn o atyniad yn flaenoriaeth ar gyfer mynd i rywle am y dydd. Roedd angen ar yr ymchwil i lywio Cynllun Datblygu Cynulleidfa Cadw.

3.2 Comisiynodd Cadw Strategic Research and Insight, asiantaeth annibynnol a leolir yng Nghaerdydd, i gynnal yr ymchwil hon.

Rydym wedi cynnal y gwaith mewn dau gam: arolwg panel meintiol ar-lein, wedi'i ddilyn gan grwpiau ffocws.

## 4. Methodoleg

4.1 Mae'r cyfuniad o ymchwil feintiol ac ymchwil ansoddol yn aml yn gweithio'n dda gydag ymchwil ar raddfa fawr fel hyn, oherwydd mae'r ddau fath o ddull yn cyflawni dibenion gwahanol. Mae ymchwil feintiol yn mesur ehangder a graddfa gan ddefnyddio meintiau sampl mawr ac mae'n ateb cwestiynau fel 'beth?' neu 'sawl un?', tra bod ymchwil ansoddol yn cloddio i ddyfnder ac yn ateb cwestiynau fel 'pam?'.

4.2 Mae paneli ar-lein yn ffordd gost-effeithiol o gyrraedd sampl fawr o'r boblogaeth yn gyflym. Mae'n cwmpasu mathau gwahanol o ddemograffeg ledled Prydain yn ddibynadwy.

4.3 Mae ein harolwg panel ar-lein yn cwmpasu'r canlynol: Cymru (maint sampl 832), Lloegr (2,119) a'r Alban (800).

4.4 Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer yr arolwg, mae'n rhaid i ymatebwyr fynd i leoedd am y dydd, neu fel arall gallai'r rhwystrau rhag ymweld â safleoedd treftadaeth fod yn ormod i Cadw geisio'u goresgyn yn realistig. Fodd bynnag, i fod yn gymwys, nid yw safleoedd treftadaeth yn un o'r mathau o leoedd y maent yn dewis i ymweld â nhw. Felly, gellir disgrifio ein sampl fel 'ymwelwyr nad ydynt yn ymweld yn aml a'r rheini nad ydynt yn ymweld o gwbl' â safleoedd treftadaeth.

4.5 Mae'r ymateb i'r arolwg o fewn pob gwlad yn gynrychioliadol o boblogaeth y wlad honno, ac yna mae'r sampl cymwys yn lleihau'n naturiol (ar ôl hidlo'r rhai nad ydynt yn gymwys fel y disgrifir uchod). Mae hyn wedi rhoi'r samplau cymwys canlynol i ni:

| Demograffig | Cymru | Prydain, y tu allan i Gymru |
|---|---|---|
| Benyw | 55% | 59% |
| Gwryw | 45% | 41% |
| 18 – 24 | 16% | 14% |
| 25 – 34 | 19% | 17% |
| 35 – 44 | 21% | 17% |
| 45 – 54 | 13% | 17% |
| 55 – 64 | 14% | 15% |
| 65+ | 17% | 20% |
| ABC1 | 56% | 57% |
| C2DE | 44% | 43% |

Maint y sampl: 832

4.6 Mae grwpiau ffocws yn cynnig cyfle da i archwilio canfyddiad yn fanwl a phrofi ymateb i ysgogiad gweledol. Rydym wedi cynnal chwe grŵp ffocws gyda chyfranogwyr dethol o'r arolwg panel yn dilyn y strwythur hwn:

| | |
|---|---|
| **Grŵp 1**<br>Cymru<br>Dim plant<br>C2DE | **Grŵp 2**<br>Cymru<br>Teulu<br>C2DE |
| **Grŵp 3**<br>Cymru<br>Teulu<br>ABC1 | **Grŵp 4**<br>Cymru<br>Dim plant<br>ABC1 |
| **Grŵp 5**<br>Lloegr / Yr Alban<br>Teulu<br>C2DE | **Grŵp 6**<br>Lloegr / Yr Alban<br>Dim plant<br>ABC1 |

4.7 Rydym wedi cynnal pob sesiwn ar-lein ym mis Mawrth 2022 gyda phedwar neu bump o gyfranogwyr ym mhob grŵp – y nifer gorau ar gyfer grwpiau ffocws ar-lein.

4.8 Roedd deall y canlynol o ddiddordeb pennaf i Cadw:

(a) Canlyniadau Cymru

(b) P’un a yw Cymru yn wahanol i weddill Prydain, a sut

Felly, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y canfyddiadau o Gymru, gan amlygu unrhyw wahaniaethau sylweddol o'u cymharu â Lloegr a'r Alban drwyddo draw.

4.9 Darperir trawsdablau ar gyfer adborth meintiol ar wahân yn ôl oedran, rhyw, math o grŵp, rhanbarth a grŵp economaidd-gymdeithasol ar gyfer Cymru ac ar gyfer Lloegr a’r Alban.


4.10 Daw’r holl niferoedd a chanrannau a nodir yn yr adroddiad hwn o’r arolwg panel ar-lein yng Nghymru, oni bai y nodir yn wahanol. Defnyddiwyd yr wyth cwestiwn cyntaf ar gyfer hidlo a demograffeg; mae'r adroddiad hwn yn trafod y canfyddiadau i'r prif gwestiynau o C9 i C23.

4.11 Rydym wedi defnyddio'r canfyddiadau ansoddol o'r grwpiau ffocws i egluro'r canfyddiadau meintiol yn fanylach. Daw’r dyfyniadau o'r grwpiau ffocws ac maent yn cael eu labelu yn ôl y math o gyfranogwr. Nid yw cwestiynu mewn ymchwil ansoddol yn dilyn ‘sgript’ benodol fel holiadur; yn hytrach, rydym wedi archwilio'r canfyddiadau meintiol yn fanylach drwy holi am fanylion.

## 5. Disgwyliadau wrth fynd i rywle am y dydd

### Beth mae pobl eisiau ei brofi wrth fynd i rywle am y dydd?

**C9 "Ticiwch hyd at dri datganiad isod sy'n disgrifio orau beth rydych chi ei eisiau o ddiwrnod allan:"**




Maint y sampl: 832

### Treulio amser gyda ffrindiau / teulu

5.1 Dyma'r ateb sydd ar y brig ymhlith pob oedran, grŵp economaidd-gymdeithasol, rhanbarth a rhyw, gyda phlant neu heb blant. Mae'r 'awydd' hwn ar gyfer mynd i rywle am y dydd mor gryf fel bod y safle yr ymwelir ag ef yn llai pwysig na'r cwmni i lawer.

*"'Dyn ni'n mwynhau'r profiad o fod gyda'n gilydd a chael diwrnod allan. 'Dyn ni ddim yn anodd ein plesio am y lle."*
*Menyw, 35 – 44, gyda phlant ifanc a hŷn, Cymru*

### Ymlacio ym myd natur – dianc rhag y cyfan

5.2 Nid yw'n amlwg yn y canfyddiadau meintiol ond yr hyn sy'n amlwg iawn yn y grwpiau ffocws a'r testun agored (a drafodir yn ddiweddarach o dan C11) yw'r awydd i ddianc rhag y cyfan trwy dreulio amser mewn amgylchedd naturiol. Nid

oedd hyn ar y rhestr o awgrymiadau cynorthwyol yn yr arolwg meintiol, ac mae ymatebwyr arolwg ar-lein, yn enwedig mewn arolygon panel, yn tueddu i beidio â defnyddio'r ‘nodwch opsiwn arall’. Pe bai wedi'i gynnwys yn y rhestr a anogwyd, mae'n debygol y byddai hwn wedi bod ymhlith yr atebion ar y brig.

*“Hyd at flwyddyn yn ôl roeddwn i’n byw ger Llundain, felly dw i’n mwynhau’r heddwch a’r tawelwch”*
*Menyw, 55 – 64, ar ei phen ei hun, Cymru*
*“Dw i eisiau gweld gerddi, bywyd gwyllt, y môr”*
*Gwryw, 45 – 54, cwpl, Cymru*

*“'Dyn ni'n mynd i'r goedwig oherwydd bod ein bechgyn yn caru anifeiliaid, natur, pryfed”*
*Menyw, 35 – 44, gyda phlant ifanc a hŷn, Cymru*

*“Mae mannau awyr agored gyda phlant gymaint yn bwysicach na mannau dan do”*
*Menyw, 45 – 54, gyda phlant ifanc, Cymru*

**Mae'r cyfyngiadau symud wedi cynyddu ymwybyddiaeth o fannau awyr agored lleol**

5.3 Mae'r pandemig bellach wedi gwneud pobl yn fwy ymwybodol o'u hamgylchedd lleol, yn enwedig mannau awyr agored tawel ym myd natur. Mae rhai o'r lleoedd hynny bellach yn parhau ar y rhestr o opsiynau o leoedd i fynd am y dydd.

*“’Dych chi'n adnabod yr ardal leol yn llawer gwell nag yr oeddech chi ddwy flynedd yn ôl ac yn sylwi ar leoedd nad oeddech chi wedi sylw arnyn nhw o'r blaen. Des i o hyd i abaty [Abaty Talyllychau] ac ro’n i wedi bod yn gyrru heibio iddo ers blynyddoedd.”*
*Gwryw, 45 – 54, cwpl, Cymru*

*“Diolch i’r pandemig, ’dyn ni wedi darganfod llawer o leoedd newydd i ymweld â nhw yn lleol”*
*Menyw, 45 – 54, gyda phlant ifanc, Cymru*

**Bwyta bwyd da**

5.4 Dyma’r ail ateb amlaf yn yr arolwg meintiol – wedi'i roi'n amlach gan grwpiau o oedolion yn unig (56%) na theuluoedd â phlant hŷn (46%) a theuluoedd â phlant iau (38%).

5.5 Mae teuluoedd â phlant ifanc yn fwy tebygol o gael picnic eu hunain – gall fod yn ormod o straen a chost dod o hyd i rywle i fwyta gyda phlant ifanc.

*“Dyw’r plant ddim yn fentrus iawn o ran eu bwyd. Os awn ni i gaffi, ’dyn ni fel arfer yn mynd â rhywbeth iddyn nhw.”*

*Menyw, 35 – 44, gyda phlant ifanc a hŷn, Cymru*

*“All y plant ddim chwarae mewn caffi – mae’n difetha’r profiad [i’r oedolion]”*
*Menyw, 35 – 44, gyda phlant ifanc, Cymru*

**Mae'r angen i gadw'n egnïol yn cynyddu gydag oedran; mae'r angen i gael eich difyrru yn gostwng**

5.6 Mae tua hanner (47%) y rhai dros 45 oed wedi dewis ‘cadw'n egnïol fel un o'u tri phrif ddymuniad ar gyfer mynd i rywle am y dydd – mae hyn yn cymharu â chyfran is (37%) o rai dan 45 oed.

5.7 Mae'r angen i gael eich difyrru yn mynd i'r gwrthwyneb. Mae tua hanner (47%) y rhai 18-24 oed wedi rhoi hwn fel ateb. Mae'r gyfran yn gostwng gyda phob grŵp oedran. Dim ond 19% o bobl dros 65 oed sy’n dweud bod angen eu difyrru fel un o’u tair prif flaenoriaeth.

**Profiad rhyngweithiol i blantctive experience for children**

5.8 Dyma’r ail ateb amlaf (53%) ymhlith teuluoedd â phlant ifanc. Mae’r angen yn lleihau rhywfaint wrth i’r plant dyfu’n hŷn – mae 37% o deuluoedd â phlant hŷn wedi ateb hyn. Yn ddiweddarach, byddwn yn trafod goblygiadau hyn ar gyfer denu mwy o ymwelwyr i safleoedd treftadaeth.

**A yw’r canlyniadau ar gyfer Cymru yn wahanol i weddill Prydain?**

5.9 Nac ydyn – mae trefn yr atebion i C9 bron yn union yr un fath, nid yw’r canrannau Cymru'n amrywio i unrhyw arwyddocâd ystadegol.

*“’Dyn ni’n mynd i barc gwledig yn East Kilbride, 30 munud i ffwrdd. Mae'n fan agored mawr, gyda theithiau cerdded yn y coetir, parciau chwarae, gwarchodfa anifeiliaid bach – ac mae'n rhad – £1.90 i oedolyn a 90c i blentyn. Y parc siglenni i blant yw'r peth gorau, ond hefyd cerdded o amgylch y dŵr. Mae’n lle hardd.”*
*Menyw, 25 – 34, plant ifanc, Yr Alban*

*“Mae’r pandemig wedi newid yn fawr sut dw i’n gweld mynd allan am y diwrnod. ’Dyn ni'n archwilio pethau newydd nawr. Dw i’n berchen ar esgidiau cerdded am y tro cyntaf yn fy mywyd.”*
*Menyw, 45 – 54, cwpl, Lloegr*

## Geiriau a ddefnyddir i ddisgrifio’r profiad o fynd i rywle am y dydd

| ***C11 “Gwnaethoch chi ateb yn gynharach mai … yw un o'r mathau o leoedd yr ydych yn ei ddewis i ymweld ag ef am y dydd. Pa dri gair sy’n disgrifio’r profiadau a gewch yno orau? (heb awgrymiadau cynorthwyol)*** | | |
|---|---|---|
| **Gair / geiriau** | **Nifer / % o ymatebwyr yn sôn am y gair/geiriau** | |
| Tawel / braf / heddychlon / ymlaciol | 401 | 48% |
| Hwyl | 180 | 22% |
| Darluniadwy / golygfaol / hardd | 111 | 13% |
| Awyr iach | 92 | 11% |
| Cyffrous | 88 | 11% |
| Traeth / tywod / môr | 73 | 9% |
| Bywyd gwyllt / natur | 65 | 8% |
| Caffi / bwyd / pysgod a sglodion / hufen iâ | 61 | 7% |
| Egnïol / ymarfer corff | 56 | 7% |
| Antur / adrenalin | 53 | 6% |
| Siopa | 48 | 6% |
| Teulu | 43 | 5% |
| Hapus | 43 | 5% |

Maint y sampl: 832

*Mae'r tabl yn dangos geiriau a grybwyllwyd gan o leiaf 5% o'r ymatebwyr*

### Profiad tawel, ymlaciol yn yr awyr agored naturiol


5.10 Mae llawer o ymatebwyr eisiau dianc rhag eu bywyd bob dydd pan fyddant yn mynd i rywle am y dydd. Mae hyn yn aml yn golygu mynd i rywle golygfaol lle gallant ymlacio, mwynhau'r heddwch a gwerthfawrogi'r golygfeydd.

5.11 Mae geiriau ar y thema gyffredinol hon yn dominyddu'r atebion heb awgrymiadau cynorthwyol a roddwyd i'r cwestiwn uchod, ac mae cyfranogwyr y grwpiau ffocws yn

cefnogi hyn. Mae'n bosibl iawn mai dyma fyddai'r ateb ar y brig i C9 cynharach pe bai wedi cael ei awgrymu.

*“Pan ’dych chi wedi cael wythnos galed, mae'n braf ar ddydd Sadwrn i godi a mynd allan am ychydig o heddwch”*

*Menyw, 55 – 64, cwpl, Cymru*




## Angen i barcio'r car

5.12 Nid oes gan bob un o safleoedd Cadw eu maes parcio eu hunain, ond mae'r rhan fwyaf o bob math o ymatebwyr yn ystyried yr angen am un yn ‘hanfodol’.

*“Pe na bai maes parcio lleol wedi’i bennu fel rhan o’r safle penodol dw i’n mynd iddo, byddai’n fy atal i rhag mynd. Yr ansicrwydd – a fydda i’n dod o hyd i rywle, faint fydd yn ei gostio? Mae'n dibynnu gyda phwy ’dych chi'n mynd hefyd. Dwi’n mynd â fy mam-gu weithiau – mae’n rhaid i ni gael lle parcio cyfleus.”*

*Menyw, 18 – 24, cwpl, Cymru*

*“Mae prisiau parcio yn fy atal rhag mynd i lawer o leoedd”*

*Menyw, 25 – 34, gyda phlant hŷn, Cymru*

Os oes rhaid talu am barcio, gall buddiolwr y taliad wneud gwahaniaeth p'un a yw gyrwyr yn teimlo eu bod am dalu.

*“’Dyn ni’n fwy tueddol o dalu am barcio os yw’r arian yn mynd i’r lle neu at achos da. Aethon ni i Wlypdiroedd Casnewydd ac mae'r arian yn mynd i'r RSPB. Ond fyddwn i ddim yn talu llawer i barcio mewn NCP.”*
*Gwryw, 35 – 44, gyda phlant ifanc, Cymru*

**Toiledau modern – pryder sylweddol i bobl dros 65 oed**

5.13 Mae llawer (71%) o bobl dros 65 oed yn dweud bod toiledau modern yn hanfodol ar gyfer mynd i rywle am y dydd. Mae hyn yn cymharu â 51% o rai dan 65 oed.

**Caffi**

5.14 Mae tua dau o bob pump (39%) yn ystyried caffi yn hanfodol. Mae’r gyfran yn uwch ymhlith teuluoedd â phlant hŷn (47%) a menywod (44%).

*“Mae fy merch 19 oed yn ‘goddef’ mynd i rywle am y dydd gyda ni. Y peth gorau iddi yw cael danteithion mewn caffi.”*
*Menyw, 35 – 44, gyda phlant ifanc a hŷn, Cymru*

**Cyfleusterau plant**

5.15 Mae tua hanner (48%) o deuluoedd â phlant ifanc yn ystyried bod maes chwarae i blant yn hanfodol, ac mae tua thraean (34%) yn ystyried bod cyfleusterau newid cewynnau a pharcio bygis yn hanfodol.

*“Mae angen cyfleusterau newid cewynnau ar ein plentyn ieuengaf pan fyddwn yn mynd i rywle”*
*Menyw, 45 – 54, gyda phlant ifanc, Cymru*

**Ydy'r canlyniadau ar gyfer Cymru yn wahanol i weddill Prydain?**

5.16 Nac ydyn – mae'r canfyddiadau ar gyfer Cymru yn gyson â'r canfyddiadau ar gyfer gweddill Prydain.

*“Os byddwn yn mynd i rywle newydd, rydyn ni’n sicrhau bod lleoedd i fwyta, toiledau”*
*Menyw, 55 – 64, cwpl, Yr Alban*

## 6. Rhwystrau i Ymweld â Safleoedd Treftadaeth

### Geiriau a ddefnyddir i ddisgrifio canfyddiadau o safleoedd treftadaeth

***C12 "Pe baech chi'n ymweld â safle treftadaeth, pa dri gair sy'n disgrifio orau'r profiad y byddech chi'n disgwyl ei gael yno? (heb awgrymiadau cynorthwyol)***

| Gair / geiriau | Nifer/% o ymatebwyr yn sôn am y gair/geiriau | |
|---|---|---|
| Addysgiadol / dysgu / llawn gwybodaeth / gwybodaeth | 324 | 39% |
| Diddorol / difyr | 293 | 35% |
| Hanesyddol / hanes | 281 | 34% |
| Diflas / anniddorol | 158 | 19% |
| Hwyl / pleserus / cyffrous | 132 | 16% |
| Tawel / braf / heddychlon / ymlaciol | 70 | 8% |
| Golygfeydd / golygfa / hardd | 60 | 7% |
| Hynafol / hen | 52 | 6% |
| Caffi / bwyta allan | 41 | 5% |

*Maint y sampl: 832*

*Mae'r tabl yn dangos geiriau a grybwyllwyd gan o leiaf 5% o'r ymatebwyr*

### Dysgu rhywbeth newydd

6.1 Mae'r grŵp geiriau mwyaf cyffredin sy'n gysylltiedig â safleoedd treftadaeth, heb awgrymiadau cynorthwyol, yn ymwneud â chael gwybodaeth a'ch addysgu.

6.2 Mae rhai yn cysylltu safleoedd treftadaeth â geiriau fel 'diflas' neu 'anniddorol'. Fodd bynnag, mae llawer mwy o bobl yn defnyddio geiriau cyferbyniol fel 'diddorol' a 'hwyl'.


6.3 Mae rhai hefyd yn defnyddio geiriau sy'n debyg i'r rhai a ddefnyddir i ddisgrifio eu hoff ddyddiau allan, fel 'tawel', 'ymlaciol' a 'golygfeydd'.

**Pam felly nad yw'r ymatebwyr hyn yn ymweld â safleoedd treftadaeth yn aml / o gwbl?**

6.4 Mae mynychder geiriau cadarnhaol i ddisgrifio profiadau disgwyliedig mewn safleoedd treftadaeth yn ysgogi'r cwestiwn pam nad yw'r ymwelwyr nad ydynt yn ymweld yn aml / y rhai nad ydynt yn ymweld o gwbl yn ymweld yn amlach neu hyd yn oed o gwbl.

6.5 Byddwn yn trafod nesaf sut y gall diddordeb fod yn gyfyngedig iawn o ran amser neu nad yw'n ymestyn y tu hwnt i un ymweliad â'r un lle, gall ddibynnu ar gyda phwy y maent yn mynd (yn enwedig plant) ac a yw'r pris mynediad yn cael ei ystyried yn un gwerth chweil.

Rhesymau dros beidio â blaenoriaethu safleoedd treftadaeth



**Ddim yn ddigon hawdd ei gyrraedd am y dydd**

6.6 Mae hwn yn ateb arbennig o aml ymhlith pobl dros 65 oed (47%) a thrigolion canolbarth Cymru (39%).

6.7 Mae sawl ystyr i'r ateb hwn:

- Nid oes digon o safleoedd treftadaeth o fewn radiws derbyniol ar gyfer rhywle i fynd am y dydd o ble mae'r unigolyn yn byw
- Mae safleoedd treftadaeth mewn lleoliadau lletchwith i'w cyrraedd
- Fel y pwynt uchod, ac nid oes digon i'w wneud yn yr ardal i wneud diwrnod allan – mae'r safle treftadaeth yn aml yn cael ei ystyried fel dim digon ar ei ben ei hun i wneud y daith yn un werth chweil

*"Gwych am tua awr ac wedyn does dim llawer i'ch cadw chi yno"*
*Gwryw, 55 – 64, cwpl, Cymru*

*"Hyd yn oed yng Nghastell Caerdydd, fyddech chi ddim yn treulio mwy nag ychydig oriau yno, ond mae gennych chi'r ddinas hefyd. Fyddwn i ddim yn teithio i ganol unman dim ond i ymweld â chastell."*
*Gwryw, 35 – 44, cwpl, Cymru*

*"I deithio dim ond i fynd i weld un peth, dyw e ddim yn ddigon. Mae angen ei gysylltu â phethau eraill. Os yw'n awr, dyw hynny ddim yn drafferth. Ond os yw'n awr i fynd i weld rhywle am 30 munud ac yna gyrru'n ôl, dyw e ddim yn ddigon."*
*Gwryw, 45 – 54, cwpl, Cymru*

6.8 Mae'n dibynnu ar y math o safle hefyd. Mae castell sy'n edrych yn gyfan i raddau helaeth yn apelio'n wahanol i un sy'n edrych fel adfail.

*"Pryd bynnag dwi'n mynd heibio Castell Caerffili, dwi'n ei weld o'n adfeilio. Dwi ddim wir eisiau gweld castell sy'n cwympo i lawr."*
*Menyw, 18 – 24, cwpl, Cymru*

**Dim ond hyn a hyn o weithiau y mae pobl eisiau ymweld â'r un safle**

6.9 Thema gyffredin sy'n dod o'r grwpiau ffocws yw bod pobl yn teimlo nad oes awydd i fynd eto ar ôl gweld safle treftadaeth, o leiaf nid o fewn cyfnod byr. Mae hyn yn

golygu bod y dewis o safleoedd treftadaeth sydd o fewn y ‘radiws rhywle i fynd am y dydd’ o ble maent yn byw yn dod i ben yn gyflym. Fodd bynnag, os ydynt yn teithio i ran arall o'r DU, maent yn fwy tebygol o ymweld ag un.

*“Dwi’n byw yng ngogledd Cymru a ’dyn ni wedi bod o gwmpas y cestyll – dyna pam ’dyn ni ddim yn mynd. ’Dyn ni wedi bod yna, wedi gwneud hynny ac wedi tynnu llun. Ond pe baen ni’n ymweld â Chaerdydd, gallen ni wneud yr ymdrech i fynd [i Gastell Caerdydd].”*

*Menyw, 55 – 64, cwpl, Cymru*

*“Dwi ddim yn meddwl ei fod o’n ddiflas o gwbl – dwi’n hoffi hanes – ond dim ond hyn a hyn o weithiau y gallwch chi fynd i’r lleoedd hyn”*

*Menyw, 55 – 64, cwpl, Cymru*

*“Gwnaethon ni ymweld â Phorthmadog ac aethon ni i Gastell Harlech gan ein bod ni ar wyliau yn yr ardal”*

*Gwryw, 55 – 64, cwpl, Cymru*

*“Es i Gastell Coch a Chastell Caerdydd yn aml pan o’n i’n iau, felly oni bai bod rhywbeth ymlaen, dwi’n llai tueddol o fynd nawr.”*

*Menyw, 18 – 24, cwpl, Cymru*

**Swnio'n ddiflas / dim diddordeb mewn hanes**

6.10 Mae'r atebion hyn yn arbennig o amlwg ymhlith y grŵp oedran ieuengaf. Dywed 43% o bobl rhwng 18 a 24 oed fod safleoedd treftadaeth yn swnio’n ddiflas, a dywed 31% nad oes ganddynt unrhyw ddiddordeb mewn hanes.

6.11 Dywed rhai y byddai’r gair ‘treftadaeth’ yn gwneud i’r lle swnio’n ddiflas, ond byddai gan air fel ‘castell’ arwyddocâd mwy cadarnhaol.

*“Dydy’r gair ‘treftadaeth’ ddim yn ysgogi cyffro, ond mae'r gair ‘castell’ yn dda. Mae plant wrth eu bodd â chestyll – mae’n debyg eu bod nhw’n hoffi dreigiau a marchogion.”*

*Menyw, 55 – 64, ar ei phen ei hun, Cymru*

**Gwerth am arian / mynediad fforddiadwy**

6.12 Nid yw'r atebion ar y rhwystrau hyn yn amrywio'n sylweddol yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol neu fath o grŵp. Mae barn ar draws llawer o fathau o ymatebwyr y gallai safleoedd treftadaeth godi mwy na'r hyn a ystyrir yn werth yr ymdrech. Mae'r farn yn debyg gyda phlant neu heb blant.

"*Os oes rhaid i chi dalu, mae cwestiwn mawr a ydych chi'n cael gwerth am arian amdano"*
*Gwryw, 55 – 64, cwpl, Cymru*

6.13 I rai, nid y pris mynediad yw'r unig fater ond hefyd y pethau ychwanegol y maent yn disgwyl talu amdanynt yn y pen draw.

*"Pe baen ni'n mynd i Gastell Caerffili, mae gennych chi'r tâl mynediad, costau parcio, mae plant bob amser eisiau sbwriel o'r siop anrhegion"*
*Menyw, 45 – 54, gyda phlant ifanc, Cymru*

**Ddim yn meddwl ei fod yn ddiddorol i blant**

6.14 Dyma'r ateb amlaf o bell ffordd (45%) a roddwyd gan deuluoedd â phlant ifanc. Mae'r rhwystr yn lleihau rhywfaint pan fydd y plant yn mynd yn hŷn – mae 24% o deuluoedd â phlant hŷn wedi ateb hyn.

*"Fel oedolyn, fyddai dim ots gen i ddarllen y wybodaeth, ond allwch chi ddim disgwyl i blant wneud hynny. Os yw'r atyniad yn codi tâl am yr holl arian hwn, oni allan nhw fforddio talu rhywun i fynd â chi o gwmpas a'i wneud e'n ddiddorol?"*
*Menyw, 25 – 34, gyda phlant ifanc, Cymru*

*"Nid yw fy mhlentyn pedair oed yn gallu darllen. Mae fy rhai hŷn yn gallu, ond bydden nhw'n diflasu. Mae angen ailberfformiad arnyn nhw."*
*Menyw, 35 – 44, gyda phlant ifanc, Cymru*

**A yw'r canlyniadau ar gyfer Cymru yn wahanol i weddill Prydain?**

6.15 Mae trefn yr atebion yn debyg iawn, ond mae rhai rhwystrau yn gwahaniaethu o ran eu canrannau. Yng Nghymru, mae 26% yn dweud nad yw safleoedd treftadaeth yn

ddigon hawdd i’w cyrraedd am y dydd. Yng ngweddill Prydain, mae hyn yn 33% (nid yw'r canlyniadau ar gyfer Lloegr a'r Alban yn wahanol iawn i'w gilydd).

*“Pan dwi wedi mynd i weld adfeilion, mae'r rhain yn fwy o stop ar y ffordd i ble ’dych chi'n mynd yn hytrach na rhywle i fynd am y dydd. Ond ro’n i wrth fy modd gyda Chastell Caerdydd oherwydd ei fod yn fwy strwythuredig ac mae gennych chi rywle i eistedd a rhywbeth i'w wneud.”*
*Menyw, 45 – 54, cwpl, Lloegr*

6.16 Yng Nghymru, mae 19% yn dweud nad yw safleoedd treftadaeth yn werth am arian. Yng ngweddill Prydain, mae hyn yn 26%.


*“Gwnewch fynediad yn rhad ac am ddim”*
*Gwryw, 65+, plant hŷn, Lloegr*

*“Byddwn i’n talu £10 i deulu. Dwi ddim yn meddwl y byddai llawer y tu mewn.”*
*Menyw, 25 – 34, plant ifanc, Yr Alban*

# 7. Annog Ymweliadau

## Ymwybyddiaeth o ddatblygiadau diweddar

**Q14 "A ydych yn ymwybodol bod rhai safleoedd treftadaeth yng Nghymru wedi mynd trwy/yn mynd trwy’r mathau canlynol o ddatblygiadau?"**




Base: 832

## Peth ymwybyddiaeth o ddatblygiadau

7.1 Mae rhai o drigolion Cymru yn ymwybodol o ddatblygiadau diweddar mewn safleoedd treftadaeth Cymru, yn enwedig caffis / bwytai ar y safle. Hefyd hygyrchedd:

*“Dwi’n gwybod y gallwch chi fynd i mewn i Gastell Harlech, ond dydw i ddim yn gwybod sut brofiad yw hi unwaith y byddwch chi i mewn”*
*Menyw, 55 – 64, ar ei phen ei hun, Cymru*


## A yw’r canlyniadau ar gyfer Cymru yn wahanol i weddill Prydain?

7.2 Geiriad y cwestiynau a ddefnyddiwyd ar gyfer ymatebwyr yn Lloegr a'r Alban oedd‘…*safleoedd treftadaeth yn y* DU …’ *yn hytrach na ‘safleoedd treftadaeth yng Nghymru’*.

7.3 Mae ymwybyddiaeth o'r datblygiadau’n debyg, ac nid yw'r cyfrannau sy'n ymwybodol o bob datblygiad yn gwahaniaethu'n sylweddol rhwng Cymru a gweddill

Prydain ac eithrio ‘mwy o gaffis neu fwytai ar y safle’ (mae 46% yn ymwybodol yng Nghymru; mae 54% yn ymwybodol yng ngweddill Prydain).

## Gwneud gwahaniaeth i'r tebygolrwydd o ymweld




*Yn C15, gofynnwyd i ymatebwyr am ddatblygiadau nad oeddent yn ymwybodol ohonynt yn C14*

## Cyfle i Cadw ehangu nifer ei ymwelwyr

7.4 Mae nifer o ffyrdd y gall Cadw ddenu mwy o ymwelwyr i'w safleoedd. Mae rhai safleoedd eisoes wedi cael eu datblygu, ond efallai na fydd y rhai nad ydynt yn ymweld yn ymwybodol.

7.5 Mae'n ymddangos mai cael mwy o gaffis neu fwytai ar y safleoedd yw'r datblygiad mwyaf effeithiol o opsiynau'r awgrymiadau cynorthwyol uchod. Mae rhai yn gweld hyn fel rhan hanfodol o'r hyn a gynigir oherwydd eu bod yn meddwl fel arall nad oes digon mewn safle treftadaeth i wneud yr ymweliad yn un gwerth chweil. Mae cael rhywle braf i eistedd a bwyta ac yfed yn cynyddu'r ‘amser a dreulir ar y safle’ yn sylweddol ac felly'r canfyddiad a yw'r ymweliad yn un gwerth chweil.

> *“Unwaith rydych chi wedi gweld castell, rydych chi wedi'i weld. Mae angen rhywbeth arall fel caffi da neu dir da i gerdded o gwmpas.”*
> *Menyw, 18 – 24, cwpl, Cymru*

**Mae rhai yn amau caffis mewn atyniadau, fodd bynnag**

7.6 Mae rhai partïon yn mynd â'u bwyd a'u diod eu hunain ar daith am y dydd i atyniad oherwydd eu bod yn amau a yw caffi'r atyniad yn addas ar eu cyfer. Mae’r rhesymau dros hyn yn cynnwys y canlynol:

- Rhy ddrud
- Gorlawn
- Dim bwyd a diod gwreiddiol / unigryw o ddiddordeb
- Efallai na fydd plant ffyslyd yn hoffi unrhyw beth / dim bwydlen i blant
- Gall cael plant o gwmpas ddifetha'r profiad a fyddai fel arall yn ymlaciol

*“Dwi wedi gweld yn aml bod ciwiau hir yn y lleoedd hyn, gwasanaeth araf – mae'n peri i mi feddwl ddwywaith”*
Menyw, 55 – 64, ar ei phen ei hun, Cymru

*“Mae ganddyn nhw fonopoli, maen nhw’n gallu codi crocbris oherwydd maen nhw’n gwybod y bydd pobl yn eu talu”*
Menyw, 55 – 64, cwpl, Cymru

*“Dwi'n ei osgoi oherwydd bod y bwyd bob amser yn ddiflas. Dwi’n hoffi tryciau bwyd gyda bwyd arloesol, nid un sefydliad yn unig.”*
Menyw, 55 – 64, grŵp o ffrindiau, Cymru

*“Fy mhrofiad fy hun yw eich bod chi'n talu £3.50 am frechdan ac wedyn meddwl ‘Bydda i'n dod ag un fy hun y tro nesaf’”*
Gwryw, 55 – 64, cwpl, Cymru

*“Dydw i ddim yn poeni am y gost – dwi’n ei weld fel rhan o’r profiad ar wyliau”*
Gwryw, 45 – 54, cwpl, Cymru

*“Galla i wneud picnic brafiach i fynd gyda ni”*
Menyw, 55 – 64, gyda phlant hŷn, Cymru

**Mwy o wybodaeth ryngweithiol – yn enwedig i blant ifanc**

7.7 Gallai cael mwy o wybodaeth ryngweithiol ar wahân i ddarllen yn unig helpu i oresgyn y canfyddiad o ddiflastod, yn enwedig ar gyfer teuluoedd â phlant ifanc – dywed tua hanner (49%) ohonynt nad ydynt yn ymwybodol o’r datblygiad hwn y byddai’n ‘bendant’ yn gwneud gwahaniaeth i’w tebygolrwydd o ymweld â safle treftadaeth.

7.8 Mae llawer yn gweld nad yw byrddau gwybodaeth sefydlog o fawr ddim diddordeb, os o gwbl, i blant iau – hyd yn oed pe baent yn gallu ei ddarllen, efallai na fyddant yn ei ddeall.

*"Os mai dim ond ffeithiau [sych] yw e, byddan nhw'n ei chael hi'n ddiflas, ond os yw'n cael ei berfformio gydag afiechyd, marwolaeth, brwydrau, ffeithiau doniol, hiwmor toiled, mae'n gwneud iddyn nhw chwerthin"*
*Menyw, 45 – 54, gyda phlant ifanc, Cymru*

*"Aethon ni i'r orsaf bwydo barcudiaid cochion yng Ngheredigion a chael byrddau cyflwyno yn adrodd straeon am y mwyngloddwyr plwm a'r tylwyth teg. Roedd y plant yn bump a saith oed ar y pryd. Roedden nhw wrth eu boddau'n clywed y mwyngloddiwr a straeon Cymru a gwnaeth ddal eu dychymyg."*
*Menyw, 45 – 54, gyda phlant ifanc, Cymru*

7.9 Mae oedolion hefyd yn awyddus i weld gwybodaeth yn dod yn fyw.

*"Es i i Gastell Warwick. Roedd ganddyn nhw lawer o actorion wedi'u lleoli o amgylch y safle. Roedd o'n gwneud i chi stopio a gwrando am 20 munud. Dod ag e'n fyw, i chi ymgolli yn y profiad, nid dim ond cerdded o gwmpas."*
*Gwryw, 55 – 64, cwpl, Cymru*

*"Mae'n rhaid bod llawer o actorion di-waith ar ôl y cyfyngiadau symud – rhywbeth fel hynny, rhywun yn canu telyn, dim ond rhywbeth rhyngweithiol"*
*Menyw, 55 – 64, grŵp o ffrindiau, Cymru*

**Mwy i blant ei wneud ar y safle**

7.10 I deuluoedd, mae hwn yn rhwystr hanfodol i'w oresgyn, yn enwedig os yw'r plant yn ifanc. Dywed tua dwy ran o dair (68%) o deuluoedd â phlant ifanc nad ydynt yn ymwybodol o'r datblygiad hwn y byddai mwy i blant ei wneud ar y safle yn 'bendant' yn gwneud gwahaniaeth i'w tebygolrwydd o ymweld â safle treftadaeth. Mae 42% o deuluoedd â phlant hŷn yn dweud hyn.

*"Roedd y plant yn dysgu am frwydr yn yr ysgol. Roedd yr ailberfformiad yn ei wneud yn gymaint o hwyl, gyda gwisgo i fyny. Dwi ddim yn gwybod a ydyn nhw'n dal i wneud hynny mewn cestyll?"*
*Menyw, 55 – 64, gyda phlant hŷn, Cymru*

*"Aethon ni i atyniad a oedd â phecynnau fforio i blant a 'dych chi'n cael creonau a phapur. Mae Fferm Ymddiriedolaeth Amelia yn gwneud rhywbeth tebyg – mae'n*

*hwyl i'r plant ddarganfod cliwiau."*
*Menyw, 45 – 54, gyda phlant ifanc, Cymru*

7.11 Mae rhieni yn aml yn blaenoriaethu anghenion eu plant wrth benderfynu ble i fynd am y dydd. Ni fyddant yn mentro mynd i rywle newydd os ydynt yn meddwl y gallai eu plant ddiflasu. Dyna pam mae rhai teuluoedd yn ailadrodd yr un diwrnodau allan – yn aml mae'n haws cadw at leoedd y maen nhw'n gwybod bod eu plant yn mwynhau ymweld â nhw.

*"Mae'n aml yn haws cadw at leoedd cyfarwydd – 'dyn ni'n gwybod bod lle i barcio yno, bod rhywle i fwyta, bod toiledau"*
*Menyw, 35 – 44, gyda phlant ifanc a hŷn, Cymru*

*"Does dim ots gennyn ni fynd i'r un lleoedd achos y gall y plant boeni wrth fynd i leoedd newydd"*
*Menyw, 35 – 44, gyda phlant ifanc, Cymru*

7.12 Mae rhai (14%) ymatebwyr sydd fel arfer yn mynd ar ddiwrnodau allan heb blant hefyd wedi ateb y byddai gwybod bod mwy i blant ei wneud ar y safle yn 'bendant' yn gwneud gwahaniaeth i'w tebygolrwydd o ymweld. Ymddengys fod dau reswm am hyn. Un yw eu bod weithiau'n mynd allan gyda phlant neu'n dechrau gwneud hynny yn y dyfodol agos.

*"Os fydda i'n mynd i rywle gyda llawer o blant, yna fy nithoedd fydden nhw"*
*Menyw, 35 – 44, ar ei phen ei hun, Cymru*

*"Byddwn ni'n edrych ymlaen rywbryd yn y dyfodol i gymryd yr wyrion a'r wyresau"*
*Gwryw, 55 – 64, cwpl, Cymru*

7.13 Y rheswm arall yw y gall presenoldeb plant ifanc atal rhai pobl rhag mynd, a dweud y gwir.

"*Dwi'n ceisio osgoi plant. Yn anterth y tymor gwyliau, awn ni ddim i unman heblaw am y mynyddoedd."*
*Menyw, 55 – 64, ar ei phen ei hun, Cymru*

*“Dwi’n osgoi mynd i leoedd lle mae plant sy’n ymddwyn yn wael”*
*Menyw, 55 – 64, grŵp o ffrindiau, Cymru*

**Mwy o ddigwyddiadau ar raddfa fawr**

7.14 Byddai digwyddiadau yn gwneud gwahaniaeth i rai pobl. Mae’n un ffordd bwysig o ddenu pobl leol i ymweld oherwydd bod rhywbeth newydd yn digwydd, ac mae’n goresgyn y teimlad nad oes angen iddynt ymweld â’r safle oherwydd eu bod eisoes wedi’i weld. Dywed rhai eu bod am gefnogi digwyddiadau yn eu cymuned leol.

*“Byddwn i’n mynd i ddigwyddiad cerddoriaeth, ffair grefftau neu arddangosfa gelf. Yn enwedig yn Harlech – byddwn i eisiau cefnogi digwyddiadau sy’n mynd ymlaen yn y castell lleol. Yn bersonol, dwi'n hoffi cerddoriaeth roc ond dwi’n agored i gerddoriaeth arall hefyd.”*
*Menyw, 55 – 64, ar ei phen ei hun, Cymru*

7.15 Ymhlith y syniadau a awgrymwyd, mae cerddoriaeth, bwyd, celf a chrefft. Efallai y byddant yn barod i dalu ychydig yn ychwanegol ar ben y pris mynediad arferol.

*“Dwi’n sicr y byddai llawer o bobl yn bondio trwy fwyd. Byddai hynny’n denu llawer o bobl.”*
*Menyw, 18 – 24, cwpl, Cymru*

**Yn fwy hygyrch – yn enwedig gyda phlant ifanc**

7.16 Nid yw canlyniadau mewn ymateb i'r datblygiad posibl hwn yn amrywio'n sylweddol yn ôl oedran, ond mae'n fwy tebygol o wneud gwahaniaeth i deuluoedd â phlant ifanc (mae 38% wedi ateb yn ‘bendant’) o gymharu â grwpiau o oedolion yn unig (24%). Gall mynd o gwmpas castell gyda chadair wthio fod mor lletchwith ag ar gyfer oedolyn oedrannus ag anghenion symudedd.

*“Does dim mynediad i bramiau”*
*Menyw, 25 – 34, gyda phlant hŷn, Cymru*

*“Mae fy mam yn 90 oed ac wedi cael diagnosis o ddementia felly ’dyn ni’n mynd â hi allan mewn cadair olwyn. Dwi'n hoffi ei chadw ar y gwastad.Yn ddi-os, fyddwn i*

*byth yn mynd â hi i gastell."*
*Menyw, 55 – 64, cwpl, Cymru*

*"Ces i lawdriniaeth asgwrn cefn yn ddiweddar felly mae angen i mi wybod a oes digon o leoedd i mi eistedd – dydy e ddim yn rhywbeth y gallwch chi chwilio amdano'n hawdd ar y wefan"*
*Menyw, 35 – 44, gyda phlant ifanc a hŷn, Cymru*

**A yw'r canlyniadau ar gyfer Cymru yn wahanol i weddill Prydain?**

7.17 Mae trefn y canlyniadau i C15 yr un peth, ond mae rhai canlyniadau'n amrywio yn y ganran sy'n ateb yn 'bendant':

- Caffis neu fwytai ar y safle (43% yng Nghymru o gymharu â 34% yng ngweddill Prydain)
- Gwybodaeth ryngweithiol ar wahân i ddarllen yn unig (37% yng Nghymru o gymharu â 31% yng ngweddill Prydain)
- Digwyddiadau ar raddfa fawr (31% yng Nghymru o gymharu â 24% yng ngweddill Prydain)

7.18 Ond er gwaethaf rhywfaint o amrywiaeth yn y canlyniadau meintiol, mae'r adborth ansoddol o'r tu allan i Gymru yn dilyn yr un themâu allweddol, sef bod angen mwy o wybodaeth ryngweithiol (yn enwedig i blant), digwyddiadau a chyfleusterau (e.e. caffi) a fyddai'n gwneud taith i safle treftadaeth yn un werth chweil o ran y daith a'r tâl mynediad.

*"Rydych chi'n mynd i edrych ar gylchoedd cerrig ac yn meddwl, 'Dwi wedi ei weld – beth ydw i'n ei wneud nawr?!"*
*Gwryw, 25 – 34, cwpl, Lloegr*


*"Byddai safleoedd treftadaeth i blant yn rhy debyg i ysgol. Ein safle treftadaeth agosaf yw Tŵr Llundain. Mae angen mwy o ryngweithio i blant, fel gilotîn, rhoi'r rhieni yn y carchar – byddai plant wrth eu boddau â hynny. Digwyddiadau byw – dyma beth oedd pobl arfer ei wneud yn y castell hwn bryd hynny, fel torri pennau pobl"*
*Benyw, 35 – 44, plant hŷn, Lloegr*

*"Pe bai'n addysgiadol ac yn rhyngweithiol, fel gyda chlustffonau, byddai'n ei wneud yn fwy diddorol na darllen cerdyn yn unig"*
*Gwryw, 55 – 64, cwpl, Lloegr*

*"Yng Nghastell Caerdydd, daeth y straeon â'r cyfan yn fyw a gwneud i mi syrthio mewn cariad â rhai o'r ystafelloedd – gan ei wneud yn haws uniaethu. Os mai dim ond adfeilion sydd yna, mae angen iddo fod yn rhan o rywbeth arall fel gerddi lle gallwch chi gerdded. Oherwydd os mai dim ond adfeilion ac un bwrdd ydyw, alla i ddim sefyll ac edrych ar hwnnw drwy'r dydd."*
*Menyw, 45 – 54, cwpl, Lloegr*

*"Os dewch chi o hyd i gaffi braf gyda ffenestri mawr lle gallwch chi fod yn edrych allan ar rywbeth, gallwch chi dreulio amser hir yno. Mae sgons da a the yn dweud wrtha i fy mod i ar ddiwrnod allan."*
*Menyw, 55 – 64, cwpl, Yr Alban*

## Datblygiadau pellach




*Nid yw'r tri datganiad olaf sy'n ymwneud â phlant wedi cael eu gofyn i'r rhai a atebodd 'na fyddai' neu 'ddim yn gwybod' neu 'mwy i blant ei wneud ar y safle' yn C15. Rydym wedi dod â'r atebion hynny i C15 ymlaen i'r canlyniadau ar gyfer C16.*

**Cyfleoedd pellach i Cadw ddenu ymwelwyr newydd**

7.19 Gallai syniadau pellach ar gyfer datblygu hefyd annog mwy o ymwelwyr nad ydynt yn ymweld yn aml a'r rheini nad ydynt yn ymweld o gwbl i ddod i safleoedd treftadaeth.

*"Yr hyn sy'n bwysig yw'r naws yr ydych chi'n ei gael gan y bobl sy'n gweithio yno. Ro'n i'n siarad â rhywun oedd yn hedfan awyren fomio'r RAF – gwnaeth o wir ddod â'r peth yn fyw."*
*Gwryw, 45 – 54, cwpl, Cymru*

7.20 Nid yw digwyddiadau, llwybrau a mannau chwarae i blant yn uchel ei safle ar y cyfan gan fod y canlyniadau wedi'u 'gwanhau' ymhlith y boblogaeth lawn, ond ymhlith teuluoedd â phlant ifanc, gallai'r rhain i gyd wneud gwahaniaeth mawr. Byddai tua dwy ran o dair o'r garfan hon yn 'bendant' yn newid y tebygolrwydd o ymweld ar gyfer pob un o'r tri syniad hyn.

"*Mae llwybr Pasg Sain Ffagan yn dda a 'dyn ni'n cael wyau ar y diwedd fel gwobr. Mae'n ennyn diddordeb y plant – maen nhw wrth eu boddau â phosau."*
*Menyw, 45 – 54, gyda phlant ifanc, Cymru*

*"Mae geogelcio yn wych. Addaswch y syniad i blant mewn safleoedd treftadaeth."*
*Menyw, 25 – 34, gyda phlant hŷn, Cymru*

**A yw'r canlyniadau ar gyfer Cymru yn wahanol i weddill Prydain?**

7.21 Nac ydyn – mae'r canfyddiadau ar gyfer Cymru yn gyson â'r canfyddiadau ar gyfer gweddill Prydain.

*"Mae amgueddfa bêl-droed ym Manceinion lle gall plant gymryd ciciau cosb, rhyngweithio. Plant iau yn arbennig – dydyn nhw ddim eisiau edrych ar luniau yn unig achos dydyn nhw ddim yn deall beth mae'n eu golygu."*
*Gwryw, 55 – 64, plant hŷn, Lloegr*

*"Yng Nghanolfan Llychlynwyr Jorvik yn Efrog, maen nhw'n llosgi'r cwch yn yr afon fel y Llychlynwyr … mae'n rhyngweithiol iawn"*
*Gwryw, 65+, plant hŷn, Lloegr*

## 8. Ymatebion i Ysgogiad Gweledol

Rydym wedi mesur yr ymatebion i wahanol ddeunyddiau ysgogi yn y grwpiau ffocws. Mae'r set gyntaf o ddelweddau yn dangos datblygiadau diweddar neu gynlluniau ar safleoedd Cadw o ran hygyrchedd, caffi, gwybodaeth ryngweithiol a gweithgareddau i blant. Dilynir hyn gan boster aelodaeth a fideo hyrwyddo Dydd Gŵyl Dewi.

Daw'r adborth a drafodir gan drigolion Cymru oni bai y nodir yn wahanol. Mae ymatebion gan drigolion y tu allan i Gymru yn gyson â hyn drwyddo draw.

**Pont hygyrchedd yng Nghastell Harlech**



**Braf gweld y fynedfa hygyrch – ond, a yw'r tu mewn yn hygyrch hefyd?**

8.1 Mae cyfranogwyr y grwpiau ffocws wedi ymateb yn gynnes i'r ddelwedd hon. Mae'n dangos hygyrchedd da i'r castell ar gyfer y rheini ag anabledd symudedd a hefyd teuluoedd â chadeiriau gwthio. Ni fyddai rhai wedi disgwyl gweld hyn mewn castell.

*"Wrth edrych yn ôl, byddai hynny wedi bod yn wych pan oedd y bechgyn mewn cadair wthio"*
*Menyw, 35 – 44, gyda phlant ifanc a hŷn, Cymru*

8.2 Fodd bynnag, mae rhai yn amau p'un a yw'r tu mewn hefyd yn hygyrch.


*"Byddai'n wych i mi nawr ond mae'n gwneud i mi feddwl am sut brofiad fyddai'r tu mewn"*
*Menyw, 35 – 44, gyda phlant ifanc a hŷn, Cymru*

**Hwyl i blant redeg drosti**

8.3 Yn ôl rhai, yn ogystal â chynnig mynediad da i'r castell, mae'r bont hefyd yn cynnig lle hwyliog i blant redeg drosti.

*"Byddai plant wrth eu boddau yn rhedeg dros honno"*
*Menyw, 45 – 54, gyda phlant ifanc, Cymru*

**Ramp hygyrchedd yn Abaty Tyndyrn**



**Hefyd wedi'i dderbyn yn dda**

8.4 Mae'r ramp hygyrchedd hwn hefyd wedi bod yn llwyddiannus gyda chyfranogwyr. Gallai wneud gwahaniaeth mawr i brofiad yr ymwelwyr llai symudol a theuluoedd gyda chadeiriau gwthio.

*"Os oes gennych chi rywun mewn cadair olwyn neu bram, mae'n gwneud bywyd yn llawer haws"*
*Gwryw, 55 – 64, cwpl, Cymru*

*"Byddai hynny'n fy helpu'n fawr. Mae'n dda bod dolenni i gydio ynddyn nhw."*
*Menyw, 35 – 44, gyda phlant ifanc a hŷn, Cymru*

*"Dwi'n meddwl bod safleoedd treftadaeth o ddiddordeb i bobl hŷn, felly mae unrhyw beth sy'n eu gwneud yn fwy hygyrch yn fantais fawr"*
*Menyw, 18 – 24, cwpl, Cymru*

**Hyrwyddo hygyrchedd**

8.5 Mae rhai yn pwysleisio y dylid hyrwyddo'r nodwedd hygyrchedd hon oherwydd ei bod yn mynd yn groes i'r hyn y byddent yn disgwyl ei ganfod mewn safle treftadaeth.

*"Dylai ddweud mewn hysbysebion fod ganddo fynediad i bobl anabl. Wedyn, fyddai dim rhaid i chi chwilio am y wybodaeth honno."*
*Menyw, 55 – 64, ar ei phen ei hun, Cymru*

**Nid yw rhai yn hoffi'r metel**

8.6 Mae'n well gan rai'r olygfa flaenorol yn Harlech oherwydd ei bod yn gweddu'n well, tra gallai'r metel yma fod yn hyll. Gallai hefyd fod yn llithrig a ddim yn dda ar gyfer sodlau.

"*Mae'n edrych yn 'fetel' iawn – mae'r llall yn cyd-fynd â'r castell yn well"*
*Menyw, 25 – 34, gyda phlant hŷn, Cymru*

**Argraff arlunydd o hygyrchedd**



**Barn gymysg ar yr un hwn**

8.7 Er bod pobl yn gyffredinol yn croesawu syniadau ar gyfer gwella hygyrchedd, mae rhai yn teimlo bod y cysyniad hwn yn mynd yn rhy bell ac yn niweidio dilysrwydd y castell gwreiddiol.

8.8 Os yw'r lifft yn rhan o strwythur 'ychwanegol' i'r castell gwreiddiol a/neu ei fod yn gynnil y tu fewn iddo, mae'n fwy tebygol o gael ei dderbyn. Ond os yw'n rhy

weladwy o'r tu allan ac yn ormod o ran o'r castell gwreiddiol, mae'r safbwyntiau'n tueddu i ymwneud â'r niwed i ddilysrwydd yr adeilad sy'n drech na'r budd hygyrchedd.

*"Pe bawn i'n gwybod bod rhywbeth o'r fath ar gael, byddwn i'n fwy tueddol o ymweld, er ei fod yn tynnu o ddilysrwydd y castell. Fyddwn i byth wedi disgwyl bod hynny'n bosibl. Dwi'n cymryd bod gan gestyll risiau troellog serth a'i fod yn anodd symud o'u cwmpas."*
*Menyw, 35 – 44, gyda phlant ifanc a hŷn, Cymru*

*"Alla i ddim dychmygu cael lifft mewn castell – dydy o ddim yn ymddangos yn iawn gwneud hynny iddo fo"*
*Menyw, 55 – 64, ar ei phen ei hun, Cymru*

*"Dwi'n meddwl ei fod o'n difetha'r gwerth hanesyddol"*
*Menyw, 55 – 64, cwpl, Cymru*

*"Byddai rhywbeth fel hyn wedi bod yn dda i fy mam oedrannus i ymweld"*
*Menyw, 45 – 54, gyda phlant ifanc, Cymru*

**Bwrdd gwybodaeth yng Nghastell Caernarfon**




**Oedolion yn ei hoffi'n gyffredinol – yn dod â'r wybodaeth yn fyw**

8.9 Wrth feddwl am oedolion yn darllen hwn, mae'r arddangosfa yn cael ei hoffi yn gyffredinol. Mae'r ddelwedd arddull clawr gwyddbwyll a'r defnydd o liw yn gwneud yr wybodaeth yn fwy diddorol i oedi a'i darllen.

*“Dyna’r math o beth rydw i’n ei hoffi – byddai’n gwneud i mi ei ddarllen”*
*Gwryw, 55 – 64, cwpl, Cymru*

*“Mae'n dod ag e’n fyw”*
*Menyw, 55 – 64, grŵp o ffrindiau, Cymru*

**Ond mae'n debyg nad yw'n ddiddorol i blant**

8.10 Fodd bynnag, wrth feddwl am blant yn edrych ar hyn, y farn gyffredinol yw na fyddai'n ddigon diddorol. Er gwaethaf y delweddau, mae'r wybodaeth dal yn statig yn hytrach nag yn rhyngweithiol lle gallent gyffwrdd â phethau a chael ymateb.

*“Dwi’n meddwl y byddai rhywbeth digidol yn llawer gwell – yn fwy diddorol i blant”*
*Menyw, 35 – 44, ar ei phen ei hun, Cymru*

*“Mae plant yn hoffi pwyso pethau, neu symud rhai o’r ffigurau o gwmpas i ddatgelu ateb”*
*Menyw, 55 – 64, gyda phlant hŷn, Cymru*

*“Ychwanegwch seinydd a botwm cyffwrdd i'r plant ei wasgu ac mae'n ei ddarllen yn uchel”*
*Menyw, 25 – 34, gyda phlant hŷn, Cymru*

**Wynebau yng Nghastell Caernarfon**



**Mae rhai yn hoffi'r wynebau**

8.11 Mae rhai yn hoffi’r arddangosfa hon gyda’r wynebau – mae’n ennyn eu diddordeb ac yn gwneud iddynt fod eisiau oedi a darllen mewn ystafell na fyddent fel arall yn treulio llawer o amser ynddi.

*“Mae'n tynnu fy sylw nawr a dwi’n gofyn pam mae'r wynebau yno. Byddwn i eisiau darllen a darganfod.”*
*Gwryw, 45 – 54, cwpl, Cymru*

*“Byddai’n ennyn diddordeb fy mhlant – siapiau diddorol, lluniau, bydden nhw eisiau dysgu amdanyn nhw”*
*Menyw, 35 – 44, gyda phlant ifanc a hŷn, Cymru*

*“Mae'n dda pan fydd rhywfaint o ddychymyg wedi mynd i'r arddangosfa. Os yw'r cyfan yn fyrddau gwastad yna mae popeth ychydig yn debyg i’w gilydd.”*
*Gwryw, 35 – 44, gyda phlant ifanc, Cymru*

**Mae eraill yn llai brwdfrydig**

8.12 Mae rhai yn llai hoff o'r arddangosfa hon. Er bod ymdrech wedi'i gwneud i wneud y wybodaeth yn ddeniadol yn weledol, mae maint y testun yn dal yn ormod i rai. Mae cwestiynau hefyd ynghylch p’un a yw'r sgrin arddangos yn yr ystafell fwyaf priodol gan ei fod yn edrych yn rhy fach ar gyfer hyn.

*“Gormod o ysgrifennu”*
*Menyw, 25 – 34, gyda phlant hŷn, Cymru*

*“Byddwn i’n darllen y rhain ond fyddai fy mhlant i ddim”*
*Menyw, 45 – 54, gyda phlant ifanc, Cymru*

*“Mae’n edrych braidd yn amleiriog ar gyfer man bach. Os oes llawer o bobl, dydyn nhw ddim yn mynd i drafferthu ei ddarllen.”*
*Menyw, 55 – 64, ar ei phen ei hun, Cymru*

**Caffi yng Nghastell Harlech**



**Dewis da iawn o leoliad**

8.13 Mae’r ddelwedd hon o’r caffi newydd yng Nghastell Harlech wedi bod yn llwyddiannus. Mae pobl yn hoffi ei fod y tu allan i'r castell, felly byddent yn mwynhau golygfeydd o'r castell yn ei gyfanrwydd, yn ogystal â'r amgylchedd deniadol.

*“Dwi’n hoffi’r ffaith y gallwch chi eistedd yno a gweld beth rydych chi wedi mynd i gael golwg arno”*
*Gwryw, 45 – 54, cwpl, Cymru*

*“Mae’n ddiddorol eich bod chi’n gallu gweld y castell cyfan wrth gael eich paned”*
*Menyw, 18 – 24, cwpl, Cymru*

*“Gallwch weld y mynyddoedd oddi yno”*
*Menyw, 55 – 64, ar ei phen ei hun, Cymru*

*“Mae cael y caffi y tu allan yn cadw’r castell yn gastell”*
*Menyw, 18 – 24, cwpl, Cymru*

**Yr unig welliant fyddai rhywbeth i gadw plant yn brysur**

8.14 Byddai rhieni'n gwerthfawrogi bod eu plant yn cael eu diddanu'n ystyrlon wrth iddynt geisio mwynhau eu profiad yn y caffi.

*“Byddai angen maes chwarae i’r ochr arnaf i’r plant”*
*Menyw, 45 – 54, gyda phlant ifanc, Cymru*

**Wedi'i dderbyn yn dda iawn gan gyfranogwyr y tu allan i Gymru hefyd**

8.15 Mae ymatebion y tu allan i Gymru yn gyson â'r pwyntiau uchod.

*“Byddwn i’n eistedd yno am oesoedd. Mae’n well na rhoi’r caffi i mewn yn yr adeilad ac amharu ar y gofod ... cewch gyfle i edrych ar y castell a gweld sut mae’n ffitio o fewn y dirwedd – mae’n werth ymweld ag ef”*
*Menyw, 55 – 64, cwpl, Yr Alban*

**Digwyddiad ym Mlaenafon**



**Syniad deniadol**

8.16 O'r ddelwedd, mae'r math hwn o ddigwyddiad yn edrych fel y byddai'n apelio at lawer. Mae'r syniad o wylio rhyw fath o sioe yn yr awyr agored ar yr adeg iawn o'r flwyddyn yn ddeniadol, ac mae'r goleuadau'n ychwanegu at y profiad.

*“Byddai’n braf gwylio drama yn yr awyr agored”*
*Menyw, 55 – 64, ar ei phen ei hun, Cymru*

**Safbwyntiau cymysg ar y clustffonau**

8.17 Mae rhai yn hoffi'r syniad o wisgo clustffonau a allai ganiatáu iddynt wrando neu beidio fel y mynnant. Efallai y bydd eraill yn eu cael braidd yn ynysig.

*"Mae'n edrych fel cyngerdd yn digwydd drwy'r clustffonau. Opsiwn da i diwnio mewn neu diwnio allan."*
*Gwryw, 35 – 44, gyda phlant ifanc, Cymru*

*"Dwi'n meddwl bod y clustffonau yn eich ynysu oddi wrth y bobl o'ch cwmpas"*
*Menyw, 55 – 64, ar ei phen ei hun, Cymru*

**Blociau adeiladu yng Nghastell Biwmares**



**Hwyl dda i blant**

8.18 Dyma'r math o weithgareddau yr hoffai rhieni weld rhagor ohonynt i blant mewn safleoedd treftadaeth – cyn belled nad ydynt yn ymladd drostynt.

8.19 Mae rhai yn awgrymu y gellid eu gwneud yn fwy o hwyl trwy gael cystadlaethau fel pwy all ei adeiladu yn yr amser cyflymaf neu gael timau i gystadlu yn erbyn ei gilydd.

*"Byddai fy mechgyn i'n rhoi cynnig da ar hwnnw"*
*Menyw, 35 – 44, gyda phlant ifanc a hŷn, Cymru*

*"Dwi'n meddwl y byddai plant yno drwy'r dydd yn gwneud hwnnw"*
*Menyw, 55 – 64, cwpl, Cymru*


*"Cael dau dîm sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd"*
*Menyw, 55 – 64, ar ei phen ei hun, Cymru*

## Efallai y byddai'r oedolion yn ymuno hefyd

8.20 Ni fyddai rhai oedolion yn gallu gwrthsefyll yr hwyl hefyd.

*"Tynnwch y plant allan o'r ffordd!"*
*Menyw, 55 – 64, ar ei phen ei hun, Cymru*

## Fideo hyrwyddo Dydd Gŵyl Dewi




*Golygfa olaf o'r fideo*

### Wedi'i dderbyn yn frwd

8.21 Mae fideo hyrwyddo Dydd Gŵyl Dewi wedi bod yn llwyddiannus iawn. Mae gwylwyr wedi ei ddisgrifio fel 'ciwt'. Mae'n dwyn atgofion plentyndod o Ddydd Gŵyl Dewi i gof. Mae hefyd yn dangos sut y gellir gwneud safle treftadaeth yn ddiddorol i blant.

*"Mae'n fy atgoffa o brosiect ysgol Dewi Sant. Mae'n ciwt."*
*Menyw, 45 – 54, gyda phlant ifanc, Cymru*


*"Dw i'n hoffi 'Gwna'r Pethau Bychain' – arwyddair neis yn hytrach na'r bobol arferol yn symud â map"*
*Menyw, 45 – 54, gyda phlant ifanc, Cymru*

*"Dwi'n meddwl os oes rhywun neu rywbeth gweledol yno i'w haddysgu ac mae'n ei wneud yn fwy diddorol gyda ffeithiau y gallant eu deall, byddwn yn bendant yn mynd â fy mhlant fy hun"*
*Menyw, 35 – 44, gyda phlant ifanc a hŷn, Cymru*

*“Mae'n ciwt iawn”*

*Menyw, 18 – 24, cwpl, Cymru*

## 9. Ymwybyddiaeth o Cadw




**Mae ymwybyddiaeth yn cydberthyn yn sylweddol iawn i oedran**

9.1 Mae ymwybyddiaeth gyffredinol / diffyg ymwybyddiaeth o Cadw wedi'i rannu 50/50. Mae hyn yn cydberthyn yn fawr i oedran, a ddangosir ar y siart uchod. Ar ôl 45 oed, mae'r boblogaeth o ymwelwyr nad ydynt yn ymweld yn aml / y rheini nad ydynt yn ymweld o gwbl yn dod yn fwy ymwybodol na pheidio.

9.2 Yn ogystal â phobl hŷn yn bod yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol, mae ymwybyddiaeth hefyd yn sylweddol uwch ymhlith:

- Dynion (58%) o gymharu â merched (44%)
- ABC1 (55%) o gymharu â C2DE (44%)

**Cwestiwn ehangach ar gyfer gweddill Prydain**

9.3 Gofynnwyd i ymatebwyr yn Lloegr a'r Alban am eu hymwybyddiaeth o English Heritage a Historic Environment Scotland/Àrainneachd Eachdraidheil Alba, yn ogystal â Cadw. Mae lefelau ymwybyddiaeth cyffredinol fel a ganlyn:


- English Heritage: 83% yn Lloegr / 54% yn yr Alban
- Historic Environment Scotland/Àrainneachd Eachdraidheil Alba: 55% yn yr Alban / 18% yn Lloegr
- Cadw: 11% yn Lloegr / 7% yn yr Alban

9.4 Yn Lloegr, mae ymwybyddiaeth o English Heritage yn dechrau ar 60% gyda phobl rhwng 18 a 24 oed ac yn cynyddu gydag oedran i 98% ymhlith pobl dros 65 oed.

9.5 Yn yr Alban, nid yw ymwybyddiaeth o Historic Environment Scotland/Àrainneachd Eachdraidheil Alba yn amrywio'n sylweddol gydag oedran – dim ond yn 2015 y cafodd ei sefydlu, er iddo olynu'r 'Historic Scotland' ag enw tebyg.

9.6 Yn Lloegr, mae ymwybyddiaeth o Cadw yn mynd yn groes i'r ymwybyddiaeth gynyddol gydag oedran. Mae 14% o bobl dan 45 oed yn Lloegr yn ymwybodol o Cadw, o gymharu ag 8% o bobl dros 45 oed.

### Aelodaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol




### Nid yw'r rhan fwyaf erioed wedi bod yn aelodau o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol

9.7 Nid yw ymatebwyr yn ôl diffiniad yn gweld safleoedd treftadaeth fel y lle maent yn ei ddewis i ymweld ag ef am y dydd, felly nid yw'n syndod nad yw'r rhan fwyaf (80%) erioed wedi bod yn aelod o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Rydym wedi defnyddio C18 fel hidlydd i C19, a drafodir nesaf.

### A yw'r canlyniadau ar gyfer Cymru yn wahanol i weddill Prydain?

9.8 Nac ydyn – mae'r canfyddiadau ar gyfer Cymru yn gyson â'r canfyddiadau ar gyfer gweddill Prydain.

## 10. Goblygiadau i Cadw

**Nid yw'r rhan fwyaf o'r ymwelwyr nad ydynt yn ymweld yn aml a'r rheini nad ydynt yn ymweld o gwbl y tu hwnt i anogaeth**

10.1 Gallai'r ymchwil hon fod wedi datgelu poblogaeth nad ydynt yn ymweld sydd heb ddiddordeb o gwbl, ond nid yw hynny'n wir. Mae ymwelwyr nad ydynt yn ymweld yn aml a'r rheini nad ydynt yn ymweld o gwbl yn fwy tebygol o ddefnyddio geiriau cadarnhaol fel ‘diddorol’ ac ‘addysgiadol’ i ddisgrifio profiadau disgwyliedig mewn safleoedd treftadaeth na geiriau fel ‘diflas’. Mae'r rhwystrau i ymweld yn fwy cymhleth na dim ond argraff nad yw'r atyniad yn lle y gallent ei fwynhau.

**Mae Cadw eisoes yn cymryd llawer o'r camau cywir**

10.2 Mae Cadw eisoes yn cymryd rhai o'r prif gamau gweithredu a allai annog ymweliadau gan ymwelwyr nad ydynt yn ymweld yn aml a'r rheini nad ydynt yn ymweld o gwbl. Yr heriau yw darparu adnoddau ar gyfer datblygiadau tebyg a chodi ymwybyddiaeth ohonynt.

**Gall caffis a digwyddiadau annog pobl leol i ymweld o’r newydd**

10.3 Mae caffis wedi’u hamlygu drwy gydol yr ymchwil fel angen allweddol ar gyfer mynd i rywle am y dydd i lawer o bobl, a byddai eu presenoldeb yn cynyddu’r tebygolrwydd o ymweliadau. Nhw yw'r gwahaniaeth canfyddedig a sonnir amdano amlaf rhwng safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a safleoedd Cadw.

10.4 Mae angen i Cadw oresgyn y canfyddiad nad oes rheswm cryf dros ddychwelyd unwaith y bydd safle treftadaeth wedi'i weld, o leiaf nid yn y dyfodol agos. Mae caffis a digwyddiadau wedi’u trafod fel ffyrdd o oresgyn y canfyddiad hwn o ymweliad untro.

10.5 Mae'r caffi yn Harlech yn arbennig o boblogaidd oherwydd ei fod y tu allan i'r castell ac felly'n cynnig golygfeydd godidog. Mae hyn yn bwysig i'w gofio ar gyfer datblygiadau i gaffis yn y dyfodol – gall y golygfeydd fod yr un mor bwysig â'r caffi ei hun.

**Fodd bynnag, mae rhai canfyddiadau negyddol o gaffis i'w goresgyn**

10.6 Nid yw pawb yn dewis bwyta mewn caffi mewn atyniad oherwydd canfyddiadau negyddol blaenorol o fod yn rhy ddrud, yn orlawn, bod â bwyd nad yw'n wreiddiol neu ddim yn addas i blant, naill ai oherwydd opsiynau bwyd neu ddiffyg adloniant.

10.7 Gallai goresgyn y canfyddiadau hyn wneud caffis hyd yn oed yn fwy effeithiol o ran denu ymweliadau, yn ogystal â chynnig ffrwd refeniw gadarnach i Cadw.

**Cyfateb yr anghenion allweddol o ran mynd i rywle am y dydd**

10.8 Mae pwysigrwydd uchel heddwch ac ymlacio ar gyfer mynd i rywle am y dydd yn bwysig i'w hystyried wrth hyrwyddo safleoedd Cadw a phenderfynu ar ddatblygiadau. Gall tiroedd ehangach llawer o safleoedd Cadw gynnig hyn.

**Dod â'r wybodaeth yn fyw**

10.9 Mae rhieni yn arbennig, ond hefyd rhai oedolion heb blant, yn awyddus i weld safleoedd treftadaeth yn dod yn fyw. Nid ydynt am dreulio'r amser yn darllen byrddau gwybodaeth statig yn unig, ac nid yw'r plant, yn arbennig, am wneud hynny.

10.10 Er bod yr arddangosiadau gwell a ddangosir yng Nghastell Caernarfon wedi arwain at rai ymatebion cymysg am resymau penodol, cefnogir yr egwyddor o geisio cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd newydd a mwy deniadol.

10.11 Mae syniadau pellach sy’n cynnwys pobl megis actorion, cerddorion, tywyswyr a staff sy'n ymgysylltu i gyd wedi’u crybwyll fel profiadau cadarnhaol o safleoedd treftadaeth eraill.

**Gwisgo fel marchogion a thywysogesau**

10.12 Mae teuluoedd yn tueddu i flaenoriaethu anghenion eu plant wrth benderfynu ble i fynd am y dydd. Ni fyddant yn mentro mynd i rywle newydd os ydynt yn meddwl y gallai'r plant ddiflasu.

10.13 Mae’r blociau adeiladu yng Nghastell Biwmares ar y trywydd iawn a hoffai teuluoedd weld rhagor o’r math hwn o syniadau. Soniwyd am brofiadau o lwybrau a phecynnau gweithgareddau mewn atyniadau eraill.

10.14 Mae gan gestyll lawer o straeon diddorol i'w hadrodd, sy'n ymwneud â marchogion, tywysogion, tywysogesau, cleddyfau, carchardai, dienyddiadau a dreigiau. Wrth ddysgu hanes canoloesol yn yr ysgol, mae rhai plant yn cael gwisgo i fyny ac yn ailberfformio straeon. Mae gan rai o safleoedd Cadw ddigwyddiadau ailberfformio eisoes hefyd, ond mae angen y math hwn o beth yn amlach.

**Grisiau a chadeiriau gwthio**

10.15 Nid yw rhai pobl yn ystyried ymweld â chestyll oherwydd eu bod yn tybio y byddai'n rhy anodd cael cadair wthio o gwmpas, neu y byddai'r holl risiau a'r diffyg lleoedd i eistedd yn ormod iddynt neu i rywun yn eu grŵp.

10.16 Gall y gwelliannau hygyrchedd yng Nghastell Harlech ac Abaty Tyndyrn newid y canfyddiad hwn os ydynt yn hysbys, a byddai mwy o'r datblygiadau hyn yn cael eu croesawu mewn safleoedd eraill. Mae angen bod yn ofalus, fodd bynnag, i blethu'r gwelliannau gymaint â phosibl er mwyn peidio ag amharu ar ddilysrwydd y safle hanesyddol.

**Straen parcio ceir**

10.17 Mae angen ystyried pwysigrwydd mawr parcio ar gyfer mynd i rywle am y dydd. Os na all Cadw adeiladu maes parcio ar safle, mae angen cyfleu'r neges ynghylch lle mae parcio cyfleus a rhad gerllaw.